Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Deri

Heol Sili
Penarth
CF64 2TP

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Y Deri

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol y Deri |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bro Morgannwg |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | Cyfrwng Saesneg |
| Math o ysgol | Arbennig a gynhelir |
| Cymeriad crefyddol | Ddim yn briodol |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 501 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 408 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 2 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector ysgolion arbennig a gynhelir yw 46.6%) | 41.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector ysgolion arbennig a gynhelir yw 100.0%) | 100.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 2.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 2.75% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2009 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 03/10/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 17/02/2025 |

Mwy o wybodaeth

Mae Ysgol y Deri yn ysgol arbennig a gynhelir gan awdurdod lleol Bro Morgannwg. Mae'r ysgol yn rhannu safle a chyfleusterau gydag ysgol uwchradd brif ffrwd. Ar hyn o bryd, mae dros 550 o ddisgyblion ar y gofrestr rhwng 3 ac 19 oed. Mae gan bob un o'r disgyblion gynlluniau datblygu unigol (CDUau) neu ddatganiadau o anghenion dysgu ychwanegol ar gyfer yr ystod lawn o anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gan gynnwys anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl (CEIM). Mae bron pob un o'r disgyblion yn dod o Fro Morgannwg ac ychydig ohonynt yn dod o awdurdodau cyfagos. Saesneg yw iaith gartref bron pob un o'r disgyblion. Mae 44% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae'r ysgol yn cyflogi 117 o staff addysgu a 325 o staff cymorth.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol wedi'i gwasgaru dros bum safle ac mae llawer gormod o alw am leoedd yno. Mae darpariaeth newydd i letya'r chweched dosbarth wrthi'n cael ei hadeiladu ar hyn o bryd.

Mae gan yr ysgol wasanaeth ymgysylltu (allymestyn) hefyd sy'n cefnogi dros 500 o ddisgyblion mewn ysgolion prif ffrwd.

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae'r weledigaeth yn Ysgol y Deri wedi'i gwreiddio'n gadarn yng ngwerthoedd 'potensial, cyfle a chyflawniad'. Mae'r diwylliant yn treiddio trwy bob agwedd ar fywyd a gwaith yr ysgol ar draws ystod helaeth ac amrywiol darpariaethau'r ysgol.

Mae Ysgol y Deri yn gymuned hapus ac anogol. Mae staff ar draws y timau addysgu a therapiwtig yn gweithio gyda'i gilydd yn eithriadol o dda i ddarparu lefelau uchel o ofal, cymorth ac arweiniad ar gyfer disgyblion, sy'n galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd cryf ym mhob agwedd ar eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn meithrin perthnasoedd cryf ac ymddiriedus â staff.

Mae gan bob un o'r disgyblion yn yr ysgol anghenion dysgu ychwanegol ac mae ganddynt naill ai gynllun datblygu unigol (CDU) neu ddatganiad o anghenion addysgol. Mae'r ysgol wedi sefydlu ymagwedd glir a diffiniedig at gyflwyno'i darpariaeth, gan ddiwallu anghenion pob disgybl yn effeithiol. Mae arweinwyr a staff wedi sicrhau ystod eang o ddarpariaethau ac ymyriadau arbenigol o ansawdd uchel sy'n cefnogi pob disgybl yn llwyddiannus. Mae Ysgol y Deri yn cynnal ystod eang o bartneriaethau effeithiol â gweithwyr iechyd proffesiynol ac asiantaethau allanol, sy'n ymestyn y cymorth sydd ar gael i ddisgyblion yn sylweddol.

Ar draws pob lleoliad, mae staff yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol â disgyblion, gan greu amgylchedd dysgu tawel a chefnogol. Mae disgyblion yn mwynhau dysgu ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig. Mae ymddygiad ac ymgysylltiad disgyblion ar draws yr ysgol yn eithriadol o dda. Mae arferion sefydledig, fel chwarae strwythuredig, pontio, a dulliau synhwyraidd, yn cefnogi ymgysylltiad disgyblion a hunan reoli yn effeithiol.

Mae gan staff addysgu ffocws clir ar ddatblygu medrau disgyblion mewn meysydd pwysig sydd wedi'u cysylltu'n dda â'u hanghenion unigol. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dwys a chymhleth yn datblygu annibyniaeth gynyddol, sy'n gwella bywyd yn eu symudedd mewn ymyriadau hynod effeithiol y maent yn eu cymhwyso'n ddiweddarach yn yr ystafell ddosbarth ac yn eu bywyd ehangach.

Mae staff yn dangos medrau cryf o ran cefnogi cyfathrebu disgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu eu medrau cyfathrebu'n llwyddiannus, sy'n eu galluogi i fanteisio ar y cwricwlwm, ymgysylltu â'i gilydd, gwneud dewisiadau a mynegi eu hunain yn effeithiol. Ymhellach, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu medrau annibyniaeth sy'n briodol i'w hanghenion datblygiadol.

Mae disgyblion yn dysgu rheoli eu hemosiynau yn effeithiol ac yn gwneud cynnydd amlwg yn eu parodrwydd i ddysgu dros gyfnod. Er enghraifft, gyda chymorth unigol wedi'i

deilwra'n fedrus, caiff y disgyblion hynny sydd â hanes o gael eu gwahardd a diffyg presenoldeb cyn mynychu'r ysgol eu hailintegreiddio mewn amgylchedd dysgu ac wedyn mewn dysgu ffurfiol, gyda deilliannau achrededig sy'n cynorthwyo'u camau nesaf mewn dysgu.

Mae gweithdrefnau presenoldeb cadarn ar waith ar draws yr ysgol, sy'n cefnogi gwelliant mewn presenoldeb ar gyfer llawer o ddisgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys gweithdrefnau clir ar gyfer cofnodi ac olrhain ymyrraeth a chymorth a deilliannau ar gyfer disgyblion targedig. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae presenoldeb grŵp penodol o ddisgyblion ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl (CEIM) yn parhau i fod yn rhy isel.

Mae'r cynnig cwricwlaidd yn Ysgol y Deri yn eang, yn gytbwys ac yn bwrpasol, ac yn darparu ystod o brofiadau buddiol ac ysgogol mewn cyd-destunau bywyd go iawn. Mae'r ddarpariaeth hon hefyd yn arwain at achrediad gwerthfawr, lle bo'n briodol. Ymhellach, mae sesiynau llais y disgybl yn sicrhau bod disgyblion yn dylanwadu ar gynllunio'u dysgu i ymgorffori'r hyn sy'n eu cymell, yn eu cyffroi ac sy'n bwysig iddynt.

Mae'r pennaeth yn mynegi gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol yn llwyddiannus, ar draws ystod helaeth ac amrywiol y darpariaethau. Er gwaethaf yr heriau sylweddol a achoswyd yn sgil ehangu'r ysgol yn gyflym ac yn ddiweddar gan yr awdurdod lleol, mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth bwyllog, sensitif a phwrpasol. Caiff ei gefnogi'n fedrus iawn gan uwch arweinwyr ac arweinwyr canol, fel ei gilydd. Mae arweinwyr yn effeithiol yn eu rolau a'u cyfrifoldebau, gan wneud penderfyniadau strategol ar gyfer gwella yn seiliedig ar ystod bwrpasol o brosesau sicrhau ansawdd sydd wedi hen ennill eu plwyf. Mae prosesau hunanwerthuso yn gadarn, ar y cyfan, ac wedi eu cysylltu'n glir â blaenoriaethau gwella. Mae dadansoddi a gwerthuso data deilliannau yn llai datblygedig.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1. Parhau i wella presenoldeb grwpiau penodol o ddisgyblion yn yr ysgol

A2. Mireinio cynllunio datblygiad, gan ganolbwyntio'n glir ac yn gyson ar effaith blaenoriaethau a mentrau ysgol gyfan ar ddeilliannau disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

# Prif werthusiad

Mae gweledigaeth yr ysgol wedi'i gwreiddio'n gadarn yng ngwerthoedd 'potensial, cyfle a chyflawniad'. Mae'r diwylliant yn treiddio trwy bob agwedd ar fywyd a gwaith yr ysgol ar draws ystod helaeth ac amrywiol y darpariaethau.

Mae Ysgol y Deri yn gymuned hapus ac anogol. Mae staff addysgu a therapiwtig yn cydweithio'n eithriadol o dda i ddarparu lefelau uchel o ofal, cymorth ac arweiniad ar gyfer disgyblion, sy'n galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd cryf ar draws pob maes dysgu yn yr ysgol. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn meithrin perthnasoedd cryf ac ymddiriedus â staff. Mae arweinwyr yn rhoi lles a deilliannau disgyblion yn ganolog i bopeth a wnânt. Maent yn gosod disgwyliadau a dyheadau uchel ar gyfer eu disgyblion. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn gynnes ac anogol tuag at eu cyfoedion a'u staff, ac mae llawer ohonynt yn sgwrsio'n hyderus ac yn frwdfrydig ag ymwelwyr. Ceir ymdeimlad clir o gymuned a pharch mewn gwersi a phrofiadau ysgol ehangach. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol. Ymhellach, mae arweinwyr a staff yn cynorthwyo ac yn annog teuluoedd yn dda ac yn meithrin perthnasoedd gwaith buddiol â rhieni a gofalwyr, er enghraifft trwy weithdai rheolaidd ar gyfer rhieni a gofalwyr. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth fuddiol i deuluoedd am sut orau i gefnogi eu plant.

Mae diwylliant diogelu sefydledig, cadarn ar draws yr ysgol. Mae staff yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Un o gryfderau nodedig y prosesau diogelu yw'r cyfarfodydd teilwredig Rhannu Gwybodaeth Amlasiantaethol. Mae arweinwyr yn adolygu data'r system adrodd ar-lein bob tair wythnos ar y cyd â chynrychiolwyr o wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae cyfarfodydd yn darparu cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer rhannu gwybodaeth ac yn darparu ymagwedd gydlynus at anghenion unigol disgyblion a theuluoedd yn dda.

## Cefnogi anghenion dysgu ychwanegol disgyblion

Mae gan bob un o'r disgyblion yn yr ysgol anghenion dysgu ychwanegol ac mae ganddynt naill ai gynllun datblygu unigol (CDU) neu ddatganiad o anghenion addysgol. Mae'r ysgol wedi sefydlu ymagwedd glir a diffiniedig at gyflwyno'i darpariaeth, sy'n diwallu anghenion pob disgybl yn effeithiol. Mae proffiliau un dudalen yn chwarae rôl hanfodol mewn sicrhau bod pob aelod o staff yn meddu ar ddealltwriaeth glir o anghenion a diddordebau disgyblion.

**Ciplun: Ymyriadau ansawdd uchel**

Mae arweinwyr a staff wedi sicrhau ystod eang o ddarpariaethau ac ymyriadau o ansawdd uchel sy'n cefnogi pob disgybl yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae darpariaeth 'Pad lansio' yr ysgol yn cynnig ymagweddau hynod ddifyr at annog disgyblion i ryngweithio ag oedolion a datblygu ymddiriedaeth ynddynt, yn ogystal â chefnogi eu rheolaeth emosiynol. Mae staff yn defnyddio gemau chwarae rôl, radio, a phrosiectau animeiddio yn effeithiol i fagu hyder a hunan-barch disgyblion. Mae rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi'r ddarpariaeth hon ac yn dweud ei bod yn newid bywyd eu plentyn. Caiff disgyblion eu blaenoriaethu ar gyfer y cymorth hwn ar sail angen, ac maent yn parhau yn y rhaglen hyd nes bydd cynnydd sylweddol yn cael ei wneud yn eu rheoleiddio emosiynol. Gall disgyblion ddychwelyd i'r 'Pad lansio' os bydd angen iddynt ailymgysylltu ag oedolion y maent yn ymddiried ynddynt yn ddiweddarach.

**Ciplun: Darparu technoleg gynorthwyol**

Mae darparu technoleg gynorthwyol, gan gynnwys yr ystafell gemau realiti rhithwir, hefyd yn cael effaith eithriadol o gadarnhaol ar ddisgyblion ag anghenion symudedd cymhleth. Mae'n cynnig dewisiadau buddiol ac ystyrlon mewn amgylcheddau rhithwir. P'un a yw'n yrru car neu reidio beic yn rhithwir i lawr mynydd, caiff disgyblion eu grymuso i brofi gweithgareddau na fyddent yn gallu cymryd rhan ynddynt fel arall, sy'n gwella'u hymdeimlad o annibyniaeth a chyfranogiad yn sylweddol.

Mae Ysgol y Deri yn cynnal ystod eang o bartneriaethau cryf gyda gweithwyr iechyd proffesiynol ac asiantaethau allanol, gan ymestyn y cymorth sydd ar gael i ddisgyblion yn sylweddol. Mae cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r gwasanaethau iechyd yn hynod effeithlon, a chynhelir cyfarfodydd wythnosol gyda gweithwyr iechyd proffesiynol, therapyddion, a staff yr ysgol, gan sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol ac yr eir i'r afael ag anghenion disgyblion yn brydlon. Mae'r dull cydlynus hwn yn golygu y gellir adnabod a datrys anghenion arbenigol o ran cymorth ac offer yn gyflym. Mae'r ysgol hefyd yn cynnig clinigau iechyd amrywiol ar y safle, gan leihau'r tarfu ar ddysgu disgyblion a sicrhau bod teuluoedd yn gallu manteisio ar wasanaethau iechyd angenrheidiol mewn amgylchedd cyfarwydd a chefnogol.

Mae'r ysgol wedi sefydlu ymagwedd effeithiol at gefnogi ymddygiad disgyblion. Mae offeryn sefydledig i fonitro ymddygiad yn galluogi arweinwyr i olrhain a dadansoddi tueddiadau ar draws safleoedd, yn ogystal ar gyfer disgyblion unigol. Mae'r tîm cymorth disgyblion hynod effeithiol yn helpu disgyblion i ddeall a rheoli eu hymddygiad eu hunain yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn rheoli eu hanghenion ymddygiadol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion hyd at 19 oed. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth hon ar gael i bob disgybl gan fod rhaid i rai disgyblion adael ar ddiwedd Blwyddyn 11. O ganlyniad, mae annhegwch mewn addysg ôl-16 yn yr ysgol.

## Addysgu a datblygiad medrau effeithiol

Ar draws pob lleoliad, mae staff yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol â disgyblion, gan greu amgylchedd dysgu tawel a chefnogol. Caiff staff cymorth eu defnyddio'n dda ac maent yn gwneud cyfraniadau hynod werthfawr at gynnydd disgyblion trwy atgyfnerthu dysgu a darparu cymorth targedig. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau dysgu, yn cymryd rhan yn frwdfrydig ac yn gwrando â diddordeb ac yn dilyn cyfarwyddiadau. Mae ymddygiad ac ymgysylltiad disgyblion ar draws yr ysgol yn eithriadol o dda. Mae arferion sefydledig, fel chwarae strwythuredig, pontio, a dulliau synhwyraidd, yn cefnogi ymgysylltiad a hunan reoli disgyblion yn effeithiol.

Mae gan bron bob un o'r athrawon a'r staff cymorth ddisgwyliadau clir ar gyfer disgyblion, sy'n sicrhau bod sesiynau'n cael eu cynllunio'n dda a'u bod yn ymatebol i anghenion dysgu unigol. Mae staff yn addasu eu dysgu'n effeithiol, er enghraifft trwy ddarparu tasgau gwahaniaethol mewn gweithgareddau cadwyn fwyd.

Mae athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gref ac yn defnyddio holi'n effeithiol i ennyn ymatebion a dyfnhau dealltwriaeth. Mae staff yn gwrando ar ddisgyblion yn effeithiol, gan eu helpu i herio'u syniadau a'u barn yn ofalus. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth o safbwyntiau pobl eraill ac yn dysgu mynegi eu syniadau, eu meddyliau a'u barn yn briodol.

Mae gan staff addysgu ffocws clir ar ddatblygu medrau disgyblion mewn meysydd pwysig sydd wedi'u cysylltu'n dda â'u hanghenion unigol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion cymhleth yn magu annibyniaeth gynyddol yn eu symudedd trwy ymyriadau hynod effeithiol, y maent wedyn yn eu cymhwyso yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt.

Mae staff yn dangos medrau cryf o ran cefnogi cyfathrebu disgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu eu medrau cyfathrebu yn llwyddiannus, gan eu galluogi i fanteisio ar y cwricwlwm, ymgysylltu â'i gilydd, gwneud dewisiadau a mynegi eu hunain yn effeithiol. Dros gyfnod, daw llawer o ddisgyblion yn gynyddol fedrus wrth ddefnyddio'u holl ddulliau i gyfathrebu i fynegi eu hanghenion, eu teimladau a'u dewisiadau neu ateb cwestiynau athrawon. Er enghraifft, maent yn cyfathrebu'n dda trwy ystumiau, synau, byrddau cyfathrebu, lleferydd, neu ddefnyddio technoleg. Mae rhai disgyblion hŷn yn cynnal sgyrsiau manwl â brwdfrydedd a rhuglder.

Mae bron pob un o'r disgyblion sy'n defnyddio cyfathrebu dieiriau, gan gynnwys arwyddo a thechnolegau cynorthwyol, yn gwneud cynnydd cryf yn datblygu'r medrau hyn a'u trosglwyddo i gyd-destunau byd go iawn. Er enghraifft, maent yn defnyddio dyfeisiau cyfathrebu electronig i gyfrannu'n llawn at gyfarfodydd y cyngor ysgol. Mae disgyblion hŷn mwy abl yn mynegi eu syniadau'n glir, er enghraifft trafod cydraddoldeb rhywedd mewn

Saesneg TGAU neu'n amddiffyn dewisiadau cymeriad mewn gêm chwarae rôl. Mae disgyblion hŷn ar safle Penarth yn paratoi ac yn cyflwyno sioeau radio byw proffesiynol a difyr, gan ymestyn eu hyder a'u medrau cyflwyno. Maent hefyd yn datblygu arbenigedd technegol, fel rheoli microffonau a lefelau sain, ac yn newid yn esmwyth rhwng siarad a cherddoriaeth.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu medrau annibyniaeth sy'n briodol i'w hanghenion datblygiadol. Mae disgyblion iau yn datblygu medrau cymdeithasol pwysig trwy chwarae strwythuredig, gan ddysgu cymryd eu tro, rhannu a rheoli eu hemosiynau pan fyddant yn colli pwyntiau mewn gêm. Mae disgyblion hŷn, er enghraifft, yn datblygu medrau galwedigaethol ac annibynnol gwerthfawr, yn enwedig trwy brofiadau bywyd go iawn. Er enghraifft, mae disgyblion yng nghaffi a fan goffi'r ysgol yn paratoi bwyd, yn gweini cwsmeriaid, ac yn gweithio tiliau electronig. Yn ychwanegol, mae disgyblion ar gampws Derw Newydd yn gweithio yn y prosiect gardd gymunedol lle maent yn adeiladu decin i'r cyhoedd ei ddefnyddio.

Mae disgyblion yn dysgu rheoli eu hemosiynau yn effeithiol ac yn gwneud cynnydd amlwg yn eu parodrwydd i ddysgu dros gyfnod. Gyda chymorth unigol wedi'i deilwra'n arbenigol, mae disgyblion sydd â hanes o gael eu gwahardd a diffyg presenoldeb yn ailintegreiddio'n llwyddiannus mewn amgylchedd dysgu cyn ymuno â'r ysgol. Dros gyfnod, maent yn ymgymryd â dysgu ffurfiol ac yn cyflawni deilliannau achrededig sy'n cefnogi eu camau nesaf.

Mae disgyblion yn elwa ar gyfleoedd dysgu perthnasol a chyffrous i ddatblygu eu medrau darllen. Er enghraifft, a lle bo'n briodol, mae disgyblion yn darllen yn gywir o gardiau symbolau i gasglu eitemau tra byddant ar helfa sborion o gwmpas yr ysgol. Mae disgyblion yn mwynhau defnyddio eu medrau darllen datblygol mewn cyd-destunau bywyd go iawn fel darllen rhestrau siopa a dilyn cyfarwyddiadau ar beiriannau hunanwasanaeth mewn siopau lleol. Mae disgyblion hŷn mwy abl yn datblygu medrau darllen lefel uwch fel ymresymu, dod i gasgliad a dadansoddi testun fel rhan o gyrsiau achrededig.

At ei gilydd, mae medrau ysgrifennu disgyblion yn datblygu yn unol â'u galluoedd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf mewn medrau creu marciau ac ysgrifennu, gan wneud cynnydd clir yn eu rheolaeth echddygol fras a manwl. Caiff disgyblion hŷn a mwy abl gyfleoedd i ysgrifennu'n estynedig, gan archwilio ystod o arddulliau, er enghraifft ysgrifennu'n werthusol am ffactorau a gyfrannodd at Hitler yn meddiannu grym.

Pan fo'n briodol, mae disgyblion yn datblygu medrau rhifedd a digidol cadarn a'u cymhwyso mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn perthnasol. Maent yn defnyddio tiliau electronig mewn caffi ysgol a siop uwchgylchu, gan atgyfnerthu medrau gweithredol fel

cyllidebu. Mae disgyblion hŷn, mwy abl yn ymestyn eu medrau mathemategol fel rhan o'u cwrs, er enghraifft trwy ddatrys hafaliadau cydamserol a newid degolion yn ffracsiynau.

Mae disgyblion yn ymgysylltu'n dda â thasgau creadigol a datrys problemau, gan gymhwyso'u dysgu mewn cyd-destunau ymarferol. Maent yn datblygu creadigrwydd trwy weithgareddau uniongyrchol fel mesur a thorri pren mewn gwaith coed neu adeiladu sgerbwd gan ddefnyddio pasta. Mae disgyblion wedi cyflwyno syniad busnes i adfer a gwerthu dodrefn, gan arwain at welliannau mewn ymgysylltiad ac ymddygiad. Mae disgyblion hefyd yn dangos ymgysylltiad cryf â'r celfyddydau. Mae disgyblion hŷn, er enghraifft, yn canolbwyntio'n astud wrth greu gwaith celf manwl, gan roi sylw gofalus i dywyllu, cymysgu ac ychwanegu persbectif.

Mae disgyblion yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r Gymraeg mewn ystod o gyd-destunau. Maent yn ysgrifennu am liw gwallt a llygaid yn Gymraeg, yn defnyddio Cymraeg achlysurol, lle bo'n briodol, ac yn ailadrodd ymadroddion wedi'u modelu yn hyderus. Pan fo'n briodol, mae disgyblion dwyieithog yn elwa ar gymorth gan gynorthwyydd addysgu sy'n siarad Cymraeg, sy'n eu galluogi i gyfathrebu'n effeithiol. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion Cymraeg iaith gyntaf wedi'i datblygu'n ddigonol.

Yn yr achosion prin iawn lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, mae rhediad araf y gwersi yn effeithio ar ymgysylltiad a her disgyblion. Nid yw profiadau dysgu amlsynhwyraidd bob amser yn cael eu hintegreiddio'n llawn, ac mewn rhai achosion, nid yw staff cymorth yn glir am eu rôl wrth ymdrin â disgyblion sy'n methu rheoli eu hemosiynau. O ganlyniad, caiff rhai cyfleoedd dysgu eu colli ar gyfer disgyblion eraill.

## Cyflwyno'r cwricwlwm

Mae Ysgol y Deri yn darparu cwricwlwm sy'n eang, yn gytbwys ac yn bwrpasol. Mae'n cynnig profiadau difyr ac ystyrlon mewn cyd-destunau bywyd go iawn, gan arwain at achredu gwerthfawr, lle bo'n briodol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ffynnu yn yr ysgol ac yn gwneud cynnydd da. Ymhellach, mae sesiynau llais y disgybl yn sicrhau bod disgyblion yn mynd ati i gyfrannu at gynllunio'u dysgu, gan ymgorffori eu diddordebau, eu cymhellion a'r hyn sy'n bwysig iddynt.

### Ciplun: Cwricwlwm galwedigaethol

Mae cwricwlwm yr ysgol yn paratoi disgyblion yn dda ar gyfer y camau nesaf mewn dysgu a llwybrau posibl yn y dyfodol. Mae hyn yn gryfder nodedig. Mae cyfleoedd galwedigaethol a phrofiad gwaith yn ymestyn medrau annibyniaeth a chyflogadwyedd disgyblion. Caiff lleoliadau profiad gwaith eu dewis yn ofalus ar gyfer disgyblion o bob oedran yn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach i adlewyrchu medrau a diddordebau disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn archwilio gwahanol rolau, sy'n cynnwys gweithio fel postman yr ysgol, gan eu galluogi i ddatblygu hyder a chyfrifoldeb.

### Ciplun: Profiadau awyr agored

Ar draws pob safle, mae llawer o ddisgyblion yn elwa ar gyfleoedd hynod werthfawr i brofi gweithgareddau awyr agored fel seiclo a beicio mynydd, heicio ac archwilio, padlfyrddio a gwersylla. Mae arweinwyr yn sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn gallu cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn trwy gaffael beiciau arbenigol, pebyll sy'n addas ar gyfer cadeiriau olwyn ac offer padlfyrddio hygyrch. Mae'r profiadau hyn yn meithrin medrau pwysig fel annibyniaeth a gwydnwch. Mae mwy o ddisgyblion yn dangos hunan-barch a lles cynyddol trwy brofi gweithgareddau newydd. Mae'r sesiynau hyn hefyd wedi cyfrannu at welliant ym mhresenoldeb a chyfathrebu ychydig o ddisgyblion.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn tripiau ac ymweliadau wedi'u cynllunio'n ystyriol sy'n ymestyn, yn atgyfnerthu ac yn ysbrydoli profiadau dysgu a phrofiadau bywyd disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion yn mwynhau ymweliadau â ffermydd, amgueddfeydd ac orielau celf lleol, yn ogystal ag elwa ar ymweliadau preswyl yng Nghymru a thramor. Mae'r cyfleoedd gwerthfawr hyn yn galluogi disgyblion i ddatblygu ystod o fedrau cymdeithasol a phersonol.

### Llais y disgybl a chyfrifoldeb

Caiff disgyblion gyfleoedd ystyrlon i ffurfio a dylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae aelodau iau'r clwb eco yn siarad yn aeddfed ac yn angerddol am bwysigrwydd eu rôl fel Arwyr Eco, sy'n amlygu eu hymrwymiad i warchod anifeiliaid a chefnforoedd a sicrhau bod yr amgylchedd yn cael gofal da.

Mae disgyblion yn barod i ymgymryd â rolau arwain, gan ddatblygu medrau dilys mewn cyfrifoldeb a gwaith tîm. Er enghraifft, maent yn awyddus i weini ymwelwyr a staff mewn rolau fel gweithio'r tryc coffi a'r caffi, lle maent yn paratoi diodydd, yn rhyngweithio â chwsmeriaid, ac yn rheoli taliadau. Mae disgyblion hŷn yn siarad yn frwdfrydig am sut mae'r profiadau arwain hyn yn helpu i'w paratoi ar gyfer gyrfaoedd a byd gwaith yn y dyfodol.

### Presenoldeb disgyblion

Mae gweithdrefnau presenoldeb cadarn ar waith ar draws yr ysgol, sy'n cefnogi gwelliant mewn presenoldeb ar gyfer llawer o ddisgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys gweithdrefnau clir ar gyfer cofnodi ac olrhain ymyrraeth a chymorth a deilliannau ar gyfer disgyblion targedig.

O ran disgyblion sydd wedi profi tarfu sylweddol ar eu haddysg yn y gorffennol, mae presenoldeb wedi gwella'n sylweddol ers iddynt ymuno â'r ysgol. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae'r presenoldeb ymhlith grŵp penodol o ddisgyblion ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl (CEIM) yn parhau i fod yn rhy isel.

## Arweinyddiaeth

Mae’r pennaeth yn mynegi gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol yn eglur, ar draws ei darpariaethau helaeth ac amrywiol. Er gwaethaf yr heriau sylweddol a achoswyd yn sgil ehangu’r ysgol yn gyflym ac yn ddiweddar gan yr awdurdod lleol, mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth bwyllog, sensitif a phwrpasol. Caiff ei gefnogi’n fedrus iawn gan uwch arweinwyr ac arweinwyr canol, fel ei gilydd. Gyda’i gilydd, maent yn gweithio’n effeithiol ac yn gydlynol i gynnal ysgol lle mae disgyblion yn hapus ac yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu, gan gynnwys eu medrau cymdeithasol, emosiynol a chyfathrebu. Mae arweinyddiaeth, gan gynnwys arweinyddiaeth ar y cyd ar bob lefel, yn gryfder nodedig yn yr ysgol.

Yn Ysgol y Deri, mae arweinwyr yn darparu cyfeiriad strategol sicr o dan arweinyddiaeth y pennaeth. Maent yn sicrhau hyn yn llwyddiannus trwy strwythur staffio wedi’i ddiffinio’n glir ac ystod o brosesau buddiol fel cyfarfodydd arweinyddiaeth ffocysedig ac wedi’u cynllunio’n dda, datblygiad proffesiynol o ansawdd uchel a rheolaeth perfformiad gadarn.

Mae arweinwyr yn gwneud penderfyniadau strategol ar gyfer gwelliant yn seiliedig ar ystod effeithiol o brosesau sicrhau ansawdd, sydd wedi hen ennill eu plwyf. Caiff staff eu cynnwys yn llawn mewn prosesau gwerthuso, ac o ganlyniad, maent yn teimlo’u bod yn cael eu gwerthfawrogi’n fawr gan arweinwyr. Mae prosesau hunanwerthuso yn gadarn, ar y cyfan, ac wedi’u cysylltu’n uniongyrchol â blaenoriaethau gwella. Fodd bynnag, mae dadansoddi a gwerthuso data deilliannau yn llai datblygedig.

Mae arweinwyr ar bob lefel yn llunio cynlluniau gweithredu defnyddiol gyda blaenoriaethau a meini prawf llwyddiant clir i wella ansawdd y ddarpariaeth. Fodd bynnag, mae cynllunio datblygiad yn rhy gymhleth, gan ei gwneud yn aneglur sut bydd camau gweithredu penodol o fudd i ddeilliannau disgyblion.

Mae’r ysgol wedi gwneud cynnydd cryf o ran mynd i’r afael ag argymhellion yr arolygiad diwethaf, er enghraifft o ran adolygu a diwygio’i hymagwedd at gynllunio ar gyfer anghenion dysgu unigol disgyblion.

## Ciplun: Dysgu proffesiynol

Mae arweinwyr yn annog, yn cefnogi ac yn datblygu staff yn fedrus ar bob lefel. Maent yn rhoi blaenoriaeth sylweddol ar ddatblygu gweithlu hynod fedrus ac wedi creu diwylliant cryf o ddysgu proffesiynol parhaus ar gyfer pob un o'r staff. Ceir llawer o enghreifftiau arwyddocaol o'r ysgol yn cydweithio ag ysgolion yn yr awdurdod lleol, ar draws y sector a'r byd ehangach, sydd wedi arwain at welliannau ar y ddwy ochr yn Ysgol Y Deri a'i hysgolion partner.

Trwy raglen gynlluniedig a theilwredig o weithgareddau, mae arweinwyr yn sicrhau bod dysgu proffesiynol yn cysylltu'n briodol â mynd i'r afael â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella ac ag anghenion unigolion. Maent yn addasu cyfleoedd i weddu i ddarpariaethau amrywiol yr ysgol, gan gynnwys sesiynau 'micro hyfforddiant' mewnol buddiol bob wythnos. Ymhellach, mae ystod ac ansawdd uchel hyfforddiant arweinyddiaeth a hyfforddi a mentora wedi cryfhau ansawdd arweinyddiaeth ar bob lefel. Mae arweinwyr yn gwerthuso effaith dysgu proffesiynol ar ddarpariaeth well yn effeithiol.

Mae arweinwyr yn defnyddio'r prosesau adolygu datblygiad proffesiynol yn llwyddiannus i gefnogi gwelliant yr ysgol. Mae gan athrawon amcanion mesuradwy sydd wedi'u cysylltu'n briodol â'r safonau proffesiynol cenedlaethol ac â blaenoriaethau ysgol gyfan. Mae staff yn croesawu cyfleoedd i werthuso ac adolygu eu datblygiad eu hunain trwy gyfarfodydd buddiol gyda'u rheolwr llinell. O ganlyniad, mae'r broses adolygu datblygiad proffesiynol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at wella llawer o agweddau pwysig ar yr ysgol, gan gynnwys cysondeb yr addysgu a'r dysgu a datblygiad graddol medrau disgyblion.

Mae'r ysgol yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol yn llwyddiannus, gan gynnwys gwella'r cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu trwy weithgareddau cyffrous a phwrpasol. Mae staff yn gweithio'n ddiwyd i gael gwared ar rwystrau rhag dysgu a lleihau effaith tlodi, er enghraifft sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad cyfartal at ystod o weithgareddau cyfoethogi.

Mae'r ysgol yn cynnig casgliad trawiadol o amgylcheddau ac adnoddau arbenigol buddiol sy'n cefnogi anghenion dysgu ychwanegol cymhleth disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r rhain yn cynnwys pwll hydrotherapi, profiadau trochi a dyfais gerdded fodur. Fodd bynnag, oherwydd y cynnydd sylweddol yn niferoedd y disgyblion yn yr ysgol, mae cyfle i ddefnyddio'r adnoddau hanfodol hyn wedi dod yn fwy cyfyngedig. Ymhellach, lleihawyd meysydd sy'n benodol i bwnc a lles o ganlyniad i ehangu ar un o'r safleoedd.

Mae gan arweinwyr drefniadau ariannol cadarn ar waith, gan sicrhau bod gwariant wedi'i gysylltu'n glir â blaenoriaethau ar gyfer gwella. Defnyddir y grant datblygu disgyblion yn ofalus i wella ystod y cyfleoedd a'r gweithgareddau cyfoethogi sydd ar gael i ddisgyblion o

gefndiroedd difreintiedig. Mae arweinwyr yn mesur ei effaith yn ofalus fel rhan arferol o’u monitro, i werthuso llwyddiant eu camau a llywio mwy o waith.

Mae llywodraethwyr yn falch o fod yn gysylltiedig â’r ysgol. Maent yn gefnogol i waith yr ysgol, ac yn wybodus amdano. Mae llawer o lywodraethwyr yn ymweld â’r ysgol yn rheolaidd ac yn cymryd rhan mewn ystod addas o weithgareddau sicrhau ansawdd, er enghraifft teithiau dysgu, gwrando ar ddysgwyr a gwerthuso data. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o gryfderau’r ysgol a’i meysydd i’w datblygu. Mae’r corff llywodraethol yn darparu cydbwysedd priodol rhwng cymorth a her, ac yn dwyn uwch arweinwyr i gyfrif yn ei rôl fel ‘ffrind beirniadol’.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio’r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni / gofalwyr a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a’r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny’n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion, lle bo’n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo’n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae’r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/04/2025